**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

Carwyn Jones AC, y Prif Weinidog

Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth

27 Mawrth 2018

Annwyl Brif Weinidog ac Ysgrifenyddion y Cabinet,

**Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS)**

Ar 21 Mawrth 2018, cynhaliwyd cyfarfod rhwng aelodau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ag academyddion a chynrychiolwyr Undeb y Prifysgolion a'r Colegau. Trefnwyd y cyfarfod ar fyr rybudd i roi cyfle i'r rhai a oedd yn gallu bod yn bresennol drafod goblygiadau'r newidiadau arfaethedig i gynllun pensiwn y prifysgolion, sy'n weithredol ers cyn 1992, sef Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS), yng Nghymru. Rwy'n atodi gwybodaeth a rannwyd â'r Pwyllgor yn ystod y cyfarfod.

Fel Pwyllgor, rydym yn bryderus iawn ynghylch effaith bosibl y newidiadau arfaethedig ar nifer o feysydd, yn enwedig:

- nifer ac ansawdd y staff a fyddai'n aros yng Nghymru yn dilyn unrhyw newidiadau o'r fath;
- yr effaith uniongyrchol ar fyfyrwyr Cymru a'r rhai sy'n astudio yng Nghymru pe bai'r newidiadau'n amharu ar nifer a/neu ansawdd y staff; ac
- effaith gyffredinol y ddau bwynt uchod ar economi ehangach Cymru, o ystyried rôl economaidd hanfodol addysg uwch ar sefyllfa ddomestig a rhyngwladol Cymru.

At hynny, rydym yn pryderu am y diffygion amlwg yn y trefniadau llywodraethu sydd ar waith i gael barn staff prifysgol ar y newidiadau arfaethedig i'r cynllun, a'r

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

ffordd y mae'r Rheoleiddiwr Pensiynau wedi ystyried goddefgarwch risg y prifysgolion.

O gofio y gallai'r newidiadau arfaethedig i gynllun pensiwn y prifysgolion effeithio'n sylweddol ar fyfyrwyr, y sector addysg uwch a'r economi ehangach yng Nghymru, rydym yn eich annog i drefnu i'r unigolion perthnasol, gan gynnwys Is-gangellorion Cymru, gwrdd fel mater o frys i geisio datrys yr anghydfod cyn gynted â phosibl.

Yn gywir

**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**

Cc Russell George AC, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.